PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# SWYDDOG CYFATHREBU A MARCHNATA

## Pecyn Ymgeisio

childreninwales.org.uk

# Cyflwyniad

**Teitl y Swydd:** Swyddog Cyfathrebu a Marchnata

**Yn adrodd i'r:** Rheolwr Cyfathrebu ac Aelodeath

**Lleoliad:** Caerdydd – gweithio'n ystwyth gartref neu yn y swyddfa gyda disgwyliad o dreulio 2 ddiwrnod y mis yn y swyddfa.

**Oriau Gwaith:** 35 awr yr wythnos

Lluniwyd yr wybodaeth amgaeedig i roi darlun llawnach i chi o ofynion y swydd a gwybodaeth am Plant yng Nghymru.

Lluniwyd y disgrifiad swydd i grynhoi'n glir gwmpas a chyfrifoldebau'r swydd, a dylid ei ddarllen yn drylwyr. Diben y fanyleb person yw nodi, mor fanwl gywir â phosibl, y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn i ymgeiswyr fedru bodloni gofynion y swydd. **Mae'n hanfodol eich bod yn darllen hyn yn ofalus ac yn rhoi sylw i'r meini prawf a geir yn y fanyleb person yn eich cais.** Os na wnewch hynny, bydd gennych lawer llai o gyfle o gael eich dewis ar gyfer cyfweliad.

**Bydd y broses ymgeisio yn cau ar 30 Ionawr 2025**

**Cynhelir y cyfweliadau ar 13 Chwefror 2025**

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n croesawu amrywiaeth ac yn hybu cyfle cyfartal. Seiliwyd hynny ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a glynir at y drefn honno ym mhob cam o'r broses recriwtio.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad gwrth-hiliol, a chynyddu amrywiaeth trwy ddileu rhwystrau a chefnogi'n holl staff i gyflawni eu potensial. Rydym wedi ymrwymo i recriwtio pobl Ddu, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig, a phobl anabl, sydd ar hyn o bryd wedi'u tangynrychioli yn Plant yng Nghymru.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb, heb ystyried oed, priodas a phartneriaeth sifil (yr un rhyw a gwahanrywiol), nam neu gyflwr iechyd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, hunaniaeth rhywedd na mynegiant rhywedd.

Ein panel recriwtio fydd yn llunio'r rhestr fer ar gyfer cyfweld. Ni fyddant yn gweld eich manylion cyswllt nac unrhyw wybodaeth cyfle cyfartal. Bydd yr wybodaeth a gafwyd gan ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw'n ddiogel am gyfnod o 1 flwyddyn, ac yna'n cael ei dinistrio heb ei datgelu.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer y swydd hon gwblhau gwiriad DBS (y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) llwyddiannus a bydd yr holl wybodaeth a ddarperir yn ystod y broses ymgeisio yn cael ei chadw fel rhan o'ch ffeil gweithiwr.I arbed costau, dim ond trwy e-bost y gallwn gydnabod ein bod wedi derbyn eich cais. Os llwyddwch i symud ymlaen i gyfweliad, cewch wybod trwy'r cyfeiriad e-bost a roddwyd i ni.

# Gwybodaeth Bellach

**Contract:** Parhaol yn amodol ar gyllid

**Oriau Gwaith:** 35 awr yr wythnos

**Graddfa Gyflog:** £34.680 y flwyddyn

**Gwyliau Blynyddol:** 25 diwrnod ynghyd a gwyliau banc

**Dull Talu:** Telir cyflogau'n uniongyrchol i'r cyfrif banc a enwebwyd gan yr aelod o staff ar y 15fed o bob mis

**Pensiwn:** Caiff cyflogeion Plant yng Nghymru eu cofrestru'n awtomatig ar Gynllun Pensiwn y Gweithle, ond gallwch ddewis optio allan

**Gweithle:** Plant yng Nghymru, Parc Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd (SPARK), Caerdydd, CF24 4HQ
– gweithio ystwyth o'ch cartref neu yn ein swyddfa

# Disgrifiad o'r Swydd

**Teitl y Swydd:** Swyddog Cyfathrebu a Marchnata

**Yn adrodd i'r:** Rheolwr Cyfathrebu ac Aelodeath

**Lleoliad:** Caerdydd – gweithio ystwyth o'ch cartref neu yn ein swyddfa

**Oriau Gwaith:** 35 awr yr wythnos

**Prif ddiben y rôl:**

Yn 2025, bydd Plant yng Nghymru yn lansio strategaeth 5 mlynedd y busnes a fydd yn para tan 2030. Rhan allweddol o gyflwyno'r strategaeth hon yw rôl newydd y Swyddog Cyfathrebu a Marchnata, a fydd yn rhan greiddiol o ddau faes amcan:

- Cynhyrchu Incwm, Datblygu Busnes ac Arloesi

- Brand, Proffil a Chyfathrebu

I'n helpu i gyflawni ein nodau yn y meysydd hyn, bydd gan y Swyddog Cyfathrebu a Marchnata rôl allweddol o ran dylunio a chyflwyno ymgyrchoedd sy'n hyrwyddo cenhadaeth a gweledigaeth y sefydliad. Bydd deilydd y swydd yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Cyfathrebu a Aelodaeth i gynllunio, cyflwyno, monitro a gwerthuso cynlluniau ar gyfer ymgysylltu'n effeithiol â'r aelodau, y rhanddeiliaid a'r partneriaid tra'n gwella proffil brand a gwaith Plant yng Nghymru.

Bydd deilydd y swydd yn arwain y gwaith o farchnata elfennau allweddol o'n dull gweithredu, gan ein helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, ac yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr sy'n darparu hyfforddiant, gwasanaethau ymgynghoriaeth a digwyddiadau i gynyddu ymgysylltiad ac incwm o'r meysydd hyn.

Bydd y gallu i sefydlu a meithrin perthnasoedd â rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn ofynnol ar gyfer y rôl hon a bydd sgiliau rhwydweithio effeithiol yn hanfodol.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau**

- Gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol i gefnogi datblygu a chyflwyno ymgyrchoedd marchnata creadigol wedi'u targedu i hybu ymwybyddiaeth, incwm, ac ymgysylltu â chynulleifaoedd.
- · Bod yn ddolen gyswllt allweddol rhwng y sefydliad a rhanddeiliaid allanol, gan sicrhau negeseuon a brandio cyson, a mynd ati i hyrwyddo ein gwaith, gan arwain at gynnydd yn y niferoedd sy'n manteisio ar wasanaethau allweddol Plant yng Nghymru.
- · Chwilio am gyfleoedd newydd i gydweithio â sefydliadau eraill, trwy feithrin a datblygu perthnasoedd ag aelodau, cyflenwyr a phartneriaid eraill.
- · Llunio strategaeth cynnwys deniadol ar gyfer y sefydliad, fydd yn cwmpasu cynnwys ar gyfer y we, cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol (bydd fideo a delweddau rhyngweithiol yn rhan o hyn), datganiadau i'r wasg, datganiadau eraill, ac astudiaethau achos, er mwyn cryfhau ymdrechion cyfathrebu allanol Plant yng Nghymru.
- · Rheoli a gwella ein presenoldeb ar-lein, gan ddefnyddio dadansoddeg i fonitro a gwerthuso llwyddiant ac effaith cynlluniau cyfryngau digidol ac adrodd ar hynny.

- · Cynllunio a gwireddu strategaethau marchnata ar gyfer digwyddiadau, gweminarau, neu weithdai sy’n gallu cynhyrchu cysylltiadau newydd.
- · Cefnogi blaenoriaethau’r tîm cyfathrebu, a bennir gan y Rheolwr Cyfathrebu ac Aelodaeth.
- · Cynrychioli’r sefydliad mewn ystod o ddigwyddiadau, cyfarfodydd a chynadleddau yn ôl y gofyn.
- · Cymryd rhan yng ngweithgareddau cyffredinol y sefydliad, gan gynnwys gweithio y tu allan i oriau ac ar y penwythnos o bryd i’w gilydd, a theithio i ambell ddigwyddiad a chyfarfod mewn rhannau eraill o Gymru.
- · Ymgymryd ag unrhyw dasgau eraill ar gais rheolwr perthnasol a Plant yng Nghymru.
- · Cyflawni’r holl dasgau uchod yn unol â nodau, gwerthoedd ac amcanion strategol Plant yng Nghymru, gyda golwg benodol ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP), polisi’r Gymraeg a’r Polisi Amddiffyn Plant.

Nid yw’r rhestr hon yn hollgynhwysol, gan y gall fod dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y mae Plant yng Nghymru yn gofyn bod deilydd y swydd yn eu cyflawni o bryd i’w gilydd, gan gyfrannu at gyflawni gweithgareddau’r sefydliad.

# Manyleb Person

### Gofynion Allweddol - Hanfodol

1. Wedi cymhwyso at lefel gradd mewn pwnc perthnasol.
2. O leiaf 4 blynedd o brofiad o waith marchnata, cyfathrebu, newyddiaduraeth neu gysylltiadau cyhoeddus.
3. Profiad diamheuol o ddatblygu a gwireddu strategaeth cynnwys sy'n perfformio'n dda, gan greu cynnwys addas ar gyfer pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ar lwyfannau amrywiol.
4. Profiad o gymhwyso egwyddorion a strategaethau marchnata er mwyn arallgyfeirio ffrydiau incwm yn llwyddiannus.
5. Gallu i rwydweithio'n hyderus â phartneriaid allanol.
6. Profiad diamheuol o ddatblygu, cyflwyno a gwerthuso ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu integredig a luniwyd i greu cysylltiadau newydd.
7. Profiad a gwybodaeth ymarferol am y cyfryngau digidol, offer dylunio (e.e. Canva) a phecynnau meddalwedd technoleg gwybodaeth (TG).
8. Gallu i weithio'n rhagweithiol, blaenoriaethu tasgau, a chadw at derfynau amser, gyda sgiliau datblygedig o ran rheoli amser.
9. Gallu i gynnal a golygu gwefannau a chyflawni gweithgareddau eraill ar y we.
10. Profiad diamheuol o weithio mewn timau amlddisgyblaeth, a gallu amlwg i ddatblygu a meithrin perthnasoedd cynhyrchiol ar draws grwpiau proffesiynol amrywiol.
11. Dangos gallu i gyfleu gwybodaeth fanwl a chymhleth mewn modd effeithiol a phroffesiynol i ystod eang ac amrywiol o bobl, gan gynnwys plant.
12. Gallu i weithio'n greadigol o'ch rhan eich hun, yn unol â'r canllawiau cytunedig, gyda sgiliau blaenoriaethu da, a'r gallu i gadw at derfynau amser a blaenoriaethu eich llwyth gwaith.
13. Gallu diamheuol i weithio fel rhan o dîm bach, a datblygu perthnasoedd cryf yn fewnol ac yn allanol.
14. Gallu i ddangos gwybodaeth am werthoedd ac egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac ymrwymiad iddynt, gyda'r penderfyniad i hyrwyddo gweithrediad effeithiol y Confensiwn.
15. Sgiliau cyfathrebu llafar a rhyngbersonol rhagorol.
16. Sgiliau rhagorol o ran TG a chyfathrebu ysgrifenedig

Gofynion Allweddol

Dymunol

1. Gallu i gyfathrebu yn Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig .
2. Gwybodaeth amlwg am ddeddfwriaeth ac arferion perthnasol yng nghyswllt materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru.
3. Profiad o weithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc.
4. Profiad o gyfrannu at ddigwyddiadau, eu cefnogi neu eu cyflwyno.
5. Medrusrwydd o ran datblygu a chynnal cronfeydd data.

# Gwybodaeth Gefndir

Children in Wales – Plant yng Nghymru yw'r corff cynrychiolaidol cenedlaethol o aelodau ar gyfer unigolion a sefydliadau o bob sector sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Daw ein haelodau o'r sectorau cyhoeddus, elusennol/nid-er-elw ac annibynnol. Bydd ein gwaith wedi'i seilio ar ddull cydweithredol, sy'n hwyluso cyfleoedd i'n haelodau, ac i blant a phobl ifanc.

Byddwn ni'n gweithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth ar y cyd â'n haelodau trwy wneud y canlynol:

- Ymgyrchu dros fabwysiadu a gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llawn ar bob lefel o'r gymdeithas yng Nghymru.
- Herio anghydraddoldeb a hybu tegwch i'r holl blant a phobl ifanc ledled Cymru.
- Cyfuno a chwyddo llais ar y cyd dros newid trawsffurfiannol ar lefel polisi yng Nghymru.
- Hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn strwythurau gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r llywodraeth yng Nghymru.
- Darparu llwyfan ar gyfer rhannu ymarfer arloesol ledled Cymru.
- Eiriol o blaid y sector(au) plant mewn meysydd blaenoriaeth.
- Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i'r gweithlu plant proffesiynol ar draws sectorau.
- Ymgymryd â gwaith ymchwil a'i ledaenu ymhlith ein haelodau.

Mae Plant yng Nghymru yn cyflawni nifer o weithgareddau er mwyn cyrraedd y nodau hyn. Yn eu plith mae:

- Trefnu cynadleddau a seminarau
- Darparu Hyfforddiant
- Cefnogi a datblygu rhwydweithiau a fforymau cryf
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- Cynrychioli'r aelodau ac ymgynghori â nhw
- Gwaith ymchwil
- Gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc trwy ein prosiect Cymru Ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae ganddo gysylltiadau cryf yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

Fel corff o aelodau rydym ni'n sefydlu rhwydweithiau yng Nghymru er mwyn cynrychioli barn yr etholaeth, canfod pryderon cyffredin, ac annog gweithgaredd amlddisgyblaeth. Gall yr aelodau fod yn rhai corfforaethol neu unigol, a deuant o ystod eang o ddiddordebau, megis iechyd, addysg, sefydliadau gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol, neu grwpiau hunan-gymorth.

Ariannir ein gwaith trwy grantiau gan Lywodraeth Cymru, rhoddwyr grantiau eraill, ac incwm a gynhyrchwn ein hunain.

Llywodraethir gwaith y sefydliad gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr

http://www.childreninwales.org.uk/.